

Coronau*



Beth ydi coron?

Coron dant ydi'r rhan sydd i'w gweld yn y geg. Defnyddir coron artiffisial i amddiffyn ac adfer dant gwan, dant sydd wedi torri, neu ddant yn llawn llenwad*. Caiff coronau eu defnyddio hefyd i wneud i ddannedd sydd wedi colli'u lliw, neu ddannedd cam, edrych yn well.

Mae coronau'n cael eu gwneud o sawl deunydd gwahanol, gan gynnwys metal a cherameg.

Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

- Bydd y deintydd yn siapio'r dant fel ei fod, pan osodir y goron artiffisial yn ei lle, yr un maint a'r un siâp â dant cyffredin.
- Bydd yr amser paratoi yn dibynnu ar y difrod* sydd ar y dant ac a oes angen adeiladu arno'n gyntaf ai peidio.
- Os ydi'r dant wedi marw neu oherwydd nad oes digon ohono ar ôl i gynnal y goron, efallai y bydd yn rhaid llenwi'r gwreiddyn gyntaf – a elwir weithiau'n 'tynnu'r nerf'. Mewn rhai achosion, caiff y goron ei dal yn ei lle gyda phleg neu bostyn yn sianel y gwreiddyn os oes llawer o'r dant ar goll.
- Bydd eich deintydd yn defnyddio defnydd meddal mowldadwy i wneud argraff* berffaith o'r hyn sy'n weddill o'r dant sydd i gael ei goroni a'r dannedd sydd agosaf ato.
- Mae technegydd deintyddol yn defnyddio'r argraff i wneud y goron.
- Caiff coron dros dro wedi'i gwneud o blastig neu fetel ei rhoi dros y dant nes y mae'r goron barhaol wedi cael ei gwneud. Byddwch yn gallu cnoi ar goron dros dro ond ni fydd cyn gryfed â'r goron orffenedig.
- Pan osodir y goron, efallai y bydd angen i'ch deintydd wneud ychydig o fân newidiadau er mwyn sicrhau'ch bod chi'n gallu brathu'n gyfforddus.
- Gosodir y goron i weld a ydi hi'n ffitio ac yna caiff ei smentio yn ei lle'n barhaol.

Beth ydi'r manteision?

- Mae coron yn gryf a gall edrych a theimlo'n union fel dant naturiol. Gellir newid y lliw a'r siâp i gydweddu â gweddill eich dannedd.
- Gan ddibynnu ar gryfder y dant oddi tani, gall coron bara am nifer o flynyddoedd os edrychwch chi ar ôl eich ceg a'ch dannedd, a chymryd na chaiff y goron ei difrodi'n ddamweiniol.
- Gall coronau hefyd wella'ch edrychiad.

GEIRFA: argraff(au) = *impression(s)*; coron(au) = *crown(s)*; difrod = *damage*; llenwad(au) = *filling(s)*